# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

**RHAN 4**

AWDURDODAU RHESTREDIG: GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN Â CHWYNION

**38 Gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion: manyleb awdurdodau rhestredig**

(1) Caiff yr Ombwdsmon bennu unrhyw awdurdod rhestredig y mae gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol iddo; a rhaid hysbysu'r awdurdod yn unol â hynny.

(2) Pan fo gweithdrefn enghreifftiol yn berthnasol i awdurdod rhestredig yn rhinwedd manyleb o dan is-adran (1), rhaid i'r awdurdod sicrhau bod gweithdrefn ymdrin â chwynion sy'n cydymffurfio â'r weithdrefn enghreifftiol at ddibenion y fanyleb.

(3) Pan fo is-adran (2) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod rhestredig gyflwyno ei weithdrefn ymdrin â chwynion i'r Ombwdsmon, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r weithdrefn enghreifftiol berthnasol, o fewn chwe mis yn dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod rhestredig yn cael yr hysbysiad o'r fanyleb o dan is-adran (1).

(4) Caiff awdurdod rhestredig, gyda chydsyniad yr Ombwdsmon, addasu cymhwysiad y weithdrefn enghreifftiol sy'n berthnasol iddo, ond dim ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol er mwyn i'r awdurdod weithredu'r weithdrefn yn effeithiol.

(5) Caiff yr Ombwdsmon ddirymu unrhyw fanyleb o dan is-adran (1) ar unrhyw adeg.

(6) Pan fo'r Ombwdsmon yn diddymu manyleb o dan is-adran (5)—

(a) rhaid i'r Ombwdsmon, cyn dirymu'r fanyleb, hysbysu pob awdurdod rhestredig y mae'r fanyleb yn gymwys iddo y bydd y fanyleb yn cael ei dirymu a phryd y bydd y dirymiad yn digwydd, a

(b) ar ddiwrnod dirymu'r fanyleb—

(i) bydd y fanyleb yn peidio â chael effaith, a

(ii) bydd y ddyletswydd yn is-adran (3) yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod rhestredig a hysbyswyd o dan is-adran (6)(a), i'r graddau y mae'r ddyletswydd yn codi mewn perthynas â'r fanyleb a ddirymwyd.